

Arolygiad o Wasanaethau Plant Cyngor Sir Penfro

Cynnwys

Cyflwyniad	4
Trosolwg	5
Meysydd i'w datblygu	6
Trefniadau mynediad: Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth	8
Asesu	10
Gofal a chymorth a chynllunio llwybrau	12
Diogelu	16
Arwain, rheoli a llywodraethu	18
Methodoleg	21
Cydnabyddiaethau	21

Cyflwyniad

Cynhaliodd Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) arolygiad o wasanaethau plant yng Nghyngor Sir Penfro yn ystod mis Medi 2018.

Roedd ein harolygiad yn seiliedig ar yr wyth datganiad llesiant a'r canlyniadau llesiant cysylltiedig a amlinellir yn nogfen Llywodraeth Cymru *Y fframwaith canlyniadau cenedlaethol ar gyfer pobl sydd angen gofal a chymorth a gofalwyr sydd angen cymorth* (Mawrth 2016). Mae ein dull arolygu yn adeiladu ar y safonau ansawdd cysylltiedig ar gyfer awdurdodau lleol a nodir yn y *Cod ymarfer mewn perthynas â mesur perfformiad gwasanaethau cymdeithasol* a gyhoeddwyd o dan adran 145 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru). Yn ogystal, yn ystod yr arolygiad, ystyriwyd gallu'r awdurdod lleol i wella drwy ddadansoddi'r modd y caiff ei swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol eu harwain a'u llywodraethu.

Canolbwyntiodd yr arolygiad hwn ar effeithiolrwydd gwasanaethau a threfniadau'r awdurdod lleol i helpu ac amddiffyn plant a'u teuluoedd. Roedd cwmpas yr arolygiad yn cynnwys:

- profiad a chynnydd plant ar ymylon gofal, plant sy'n derbyn gofal a'r rhai sy'n gadael gofal gan gynnwys ansawdd ac effaith gwasanaethau atal, effeithiolrwydd prosesau gwneud penderfyniadau, gofal a chymorth a chynllunio llwybrau
- y trefniadau i sicrhau sefydlogrwydd i blant sy'n derbyn gofal a phlant sy'n dychwelyd adref gan gynnwys defnyddio gwasanaethau maethu, gofal preswyl a lleoliadau y tu allan i'r awdurdod lleol
- cydymffurfiaeth â rheoliadau gwasanaethau maethu a'r safonau gofynnol cenedlaethol
- ansawdd y trefniadau arwain, rhianta corfforaethol a llywodraethu sydd ar waith i bennu, datblygu a chefnogi gwasanaethau digonol a'u darparu yn enwedig mewn perthynas â phlant sy'n derbyn gofal, y rhai sy'n gadael gofal a'u teuluoedd.

Er bod yr arolygiad wedi canolbwyntio'n bennaf ar gynnydd a phrofiad plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal a'r broses y mae'r rhai sy'n gadael gofal yn ei dilyn wrth droi'n oedolion, roedd yr arolygiad wedi canolbwyntio ar ymgysylltiad plant, pobl ifanc a'u teuluoedd â'r canlynol:

- Gwasanaeth gwybodaeth, cyngor neu gymorth (IAA), gwasanaethau ataliol;
- Asesu/ailasesu anghenion gofal a chymorth a gwaith cynllunio gofal a chymorth;
- Ymholiadau amddiffyn plant, gweithdrefnau, camau amddiffyn brys a chynlluniau amddiffyn gofal a chymorth.

Roedd yr arolygwyr wedi darllen ffeiliau achos, cyfweld â staff a chynnal arolwg staff, cyfweld â rheolwyr a chyfweld â gweithwyr proffesiynol o asiantaethau partner. Siaradodd yr arolygwyr â phlant a'u teuluoedd lle bo

hynny'n bosibl. Roedd pobl ifanc a'r rhai sy'n gadael gofal wedi mynychu dau grŵp ffocws.

Trosolwg o'n canfyddiadau

- Mae Cyngor Sir Penfro wedi dangos ei ymrwymiad i foderneiddio'r ffordd mae gwasanaethau plant yn cael eu comisiynu a'u darparu. Mae'r awdurdod lleol yn rhagweithiol wrth nodi meysydd y mae angen eu datblygu ymhellach ac mae'n defnyddio amrywiaeth o opsiynau ar gyfer llywio gwelliant.
- Nodwyd bod uwch dîm rheoli sydd wedi ymrwymo i fod yn agored ac yn dryloyw, ac roedd yn croesawu newid.
- Roedd y staff yn deall ac yn dilyn gweithdrefnau a phrosesau diogelu gan sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael eu hamddiffyn mewn ffordd amserol a chyson.
- Mae'r awdurdod lleol yn parhau i ymgorffori egwyddorion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, gan sicrhau bod gwaith asesu seiliedig ar gryfder a chymryd risgiau cadarnhaol yn ategu'r ymarfer.
- Mae gwasanaethau ymyrryd cynnar ac ataliol i blant a theuluoedd wedi hen ymsefydlu ac yn llwyddiannus. Gwelwyd bod y rheolwyr yn cydweithio'n dda ym mhob gwasanaeth, ac roedd ganddynt ddealltwriaeth gyffredinol o'r ffordd roeddent am weithio gyda theuluoedd.
- Gwelsom dystiolaeth o waith ataliol da gyda theuluoedd drwy gydweithio rhwng gweithwyr cymdeithasol, Ymylon Gofal, Addysg Tai a'r trydydd sector a arweiniodd at ganlyniadau da i'r bobl ifanc a'u teuluoedd.
- Mae cefnogaeth gorfforaethol dda i wasanaethau plant gan aelodau etholedig a'r cyngor yn ehangach.
- Mae'r awdurdod lleol yn cydnabod bod angen datblygu ei wasanaethau ar gyfer pobl ifanc sy'n gadael gofal ymhellach ac mae'n awyddus i wneud hynny.
- Mae angen cryfhau'r trefniadau maethu er mwyn sicrhau bod plant yn cael profiadau cadarnhaol cyson a chanlyniadau gwell pan gânt ofal.
- Mae'r fframwaith sicrhau ansawdd yn cael ei ddatblygu er mwyn sicrhau cysondeb, gwella ymarfer a llywio'r gwasanaethau.

Meysydd i'w datblygu

Asesu

1. Parhau i ymgorffori systemau sicrhau ansawdd er mwyn monitro ansawdd asesiadau, a gwaith cynllunio gofal a chymorth.

Gofal a chymorth a chynllunio llwybrau

2. Parhau i weithio gyda chyfarwyddiaethau eraill o fewn y cyngor ac asiantaethau partner er mwyn datblygu modelau amlasiantaethol. Cynnwys partneriaid ehangach fel cymdeithasau tai, cymorth cyflogaeth a rhaglenni cymunedol er mwyn cefnogi plant sy'n derbyn gofal a'r rheini sy'n gadael gofal.
3. Sicrhau bod cyfarfodydd amharu yn cael eu cynnal ar ôl i leoliad chwalu er mwyn deall y rhesymau, clywed llais y bobl ifanc, monitro tueddiadau a sicrhau bod unrhyw wersi a ddysgwyd yn cael eu gweithredu.
4. Datblygu'r gwasanaeth maethu ymhellach er mwyn cynnig gwell dewis o leoliadau priodol i bob person ifanc, yn enwedig y rhai ag anghenion cymhleth.
5. Datblygu'r gwaith o gomisiynu lleoliadau ymhellach er mwyn sicrhau eu bod yn ddigonol i ddiwallu anghenion pobl ifanc sy'n ymddwyn mewn ffyrdd cymhleth yn ddiogel.
6. Dylai'r awdurdod lleol fodloni ei hun fod y trefniadau gorau posibl ar waith i hyrwyddo canlyniadau cadarnhaol i'r sawl sy'n gadael gofal.
7. Sicrhau bod y polisi Pontio wedi'i ddeall a'i ymgorffori'n llawn yn ymarferol.

Diogelu

8. Sicrhau bod pob aelod o'r staff a phob partner yn deall polisiau a gweithdrefnau'r Tîm Dyletswydd Argyfwng.

Arwain, rheoli a llywodraethu

9. Mae penodi Cyfarwyddwr a Phennaeth Gwasanaeth newydd wedi cynnig y cyfle i ddatblygu uwch dîm rheoli cryf a sefydlog. Mae'n bwysig sicrhau bod digon o uwch reolwyr ar gael i gyflawni'r rhaglen newid y mae'r awdurdod lleol wedi nodi bod ei hangen.
10. Adolygu'r strategaeth bresennol ar gyfer y gweithlu er mwyn helpu i recriwtio staff i'r awdurdod a chadw staff presennol.

Camau nesaf

Mae AGC yn disgwyl i Gyngor Sir Penfro ystyried y meysydd a nodwyd fel rhai i'w datblygu a chymryd camau priodol er mwyn mynd i'r afael â'r meysydd hyn a'u gwella. Bydd AGC yn monitro cynnydd drwy ei gweithgarwch ymgysylltu parhaus gyda'r awdurdod lleol.

1. Trefniadau mynediad: Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth

Yr hyn rydym yn disgwyl ei weld

Mae'r awdurdod yn gweithio gyda sefydliadau partner i ddatblygu, deall, cydlynu, diweddarau a gwneud y defnydd gorau o adnoddau gwybodaeth, cymorth a chyngor sydd ar gael yn eu hardal yn y sectorau statudol, gwirfoddol a phreifat. Gall pawb, gan gynnwys gofalwyr, gael gafael ar wybodaeth gynhwysfawr am wasanaethau a chael cyngor a chymorth yn gyflym, gan gynnwys gwybodaeth am eu cymhwysedd a'r ymateb y gallant ei ddisgwyl gan y gwasanaeth. Mae trefniadau effeithiol ar waith i oedi neu atal yr angen am ofal a chymorth. Mae pobl yn ymwybodol o bwyntiau cyswllt allweddol ac yn gallu eu defnyddio'n hawdd. Mae'r gwasanaeth yn gwrando ar bobl ac yn dechrau gan ganolbwyntio ar yr hyn sy'n bwysig iddynt. Mae trefniadau cyfeirio effeithiol yn rhoi dewis i bobl o ran y cymorth a'r gwasanaethau sydd ar gael yn eu hardal, yn enwedig gwasanaethau ataliol. Mae partneriaid yn deall y trefniadau ar gyfer cael mynediad at wasanaethau cymdeithasol statudol ac mae'r bobl sy'n ymgysylltu â'r gwasanaeth yn gweithredu'n effeithiol.

Crynodeb o'r canfyddiadau

- 1.1. Gwelsom ymateb prydlon i atgyfeiriadau gyda chamau prydlon ac effeithiol yn cael eu cymryd gan staff profiadol oedd yn canolbwyntio ar yr hyn sy'n bwysig i blant a theuluoedd.
- 1.2. Mae'r awdurdod lleol wedi gwneud gwaith i fodloni gofynion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (y Ddeddf). Nodwyd bod atgyfeiriadau oedd wedi dod i law'r gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth o fewn y Tîm Gofal Plant ac Asesu wedi cael ymateb prydlon a phriodol. Gwelwyd staff y gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth yn defnyddio'r sgwrs "yr hyn sy'n bwysig" a'r pum cam tuag at gymhwysedd yn unol â'r Ddeddf.
- 1.3. Mae gan y staff wybodaeth dda am adnoddau lleol ac maent yn hyrwyddo ymwybyddiaeth pobl o'r rhain er mwyn llywio dewisiadau. Gwelsom dystiolaeth o weithwyr proffesiynol eraill yn gwneud atgyfeiriadau priodol at y gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth, o ran plant a phobl ifanc oedd mewn perygl o gael eu cam-drin, eu hesgeuluso neu eu niweidio a'r rhai oedd angen gofal a chymorth. Gwelsom drosglwyddo achosion amddiffyn plant yn ddi-dor o'r gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth i'r Tîm Asesu Gofal Plant sy'n ymchwilio i achosion amddiffyn plant.
- 1.4. Drwy gyfnewid â staff yr awdurdod lleol ac asiantaethau partner, daethom yn ymwybodol o'r ffordd mae defnyddio'r model Arwyddion Diogelwch wedi darparu fframwaith cyffredin i'w ddefnyddio ar draws gwasanaethau, gan arwain at ffordd o gyfathrebu sy'n defnyddio iaith glir ac arferion a rennir a ddeallir gan bob partner.

- 1.5. Mae Cyngor Sir Penfro yn parhau i ddatblygu ei ddull o ddarparu gwasanaethau ymyrryd yn gynnar ac ataliol gyda phartneriaid a'r trydydd sector. Mae cynnig gwasanaethau ymyrryd yn gynnar ac ataliol gan y Tîm o Amgylch y Teulu yn hyrwyddo canlyniadau da i deuluoedd. Gwelsom waith yn cael ei wneud gyda phartneriaid amlasiantaethol a gwasanaethau ataliol fel Dechrau'n Deg, Teuluoedd yn Gyntaf, y Tîm o Amgylch y Teulu, Gwasanaethau Ieuencid a'r Adran Addysg er mwyn darparu gwasanaethau wedi'u targedu mewn ffordd amserol oedd yn osgoi'r angen i gynnwys gwasanaethau statudol. Dangosodd enghraifft o'r ffeiliau a archwiliwyd ganlyniadau cadarnhaol a gyflawnwyd ar gyfer plentyn a'i deulu gan bob parti a wnaeth gyfrannu at yr asesiad. Gwelsom dystiolaeth o gyfeirio at wasanaethau priodol fel rhaglenni rhianta a rheoli dicter. Roedd hyn yn fodd i gymryd camau ymyrryd ataliol, gan gefnogi'r teulu i reoli ei ganlyniadau llesiant ei hun.
- 1.6. Mae'r cynnig rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg wedi cael ei gydnabod gan yr awdurdod lleol gyda'r adran gwasanaethau cymdeithasol yn cyfrannu at y gweithgor corfforaethol ar y Gymraeg ac yn cyflawni cynllun gweithredu "Mwy na Geiriau". Caiff y staff eu hannog i hyrwyddo "Iaith Gwaith" a chlywsom gan staff a allai ddarparu gwasanaeth dwyieithog os oedd angen.

2. Asesu

Yr hyn rydym yn disgwyl ei weld

Mae pawb sydd â'r hawl i gael asesiad o'u hanghenion gofal a chymorth yn cael asesiad yn eu hiaith ddewisol. Mae pob gofalwr sy'n ymddangos fel pe bai ganddo anghenion cymorth yn cael cynnig asesiad o anghenion, ni waeth pa fath o ofal a ddarperir, ei sefyllfa ariannol na'r lefel o gymorth a all fod ei hangen. Caiff anghenion pobl eu hasesu'n amserol sy'n hybu eu hannibyniaeth a'u gallu i wneud dewsiadau. Mae asesiadau'n ystyried canlyniadau personol a barn, dymuniadau a theimladau'r person sy'n cael ei asesu a phobl eraill berthnasol, gan gynnwys y rheini sydd â chyfrifoldeb rhieni. Gwneir hyn i'r graddau sy'n rhesymol ymarferol ac yn hybu eu llesiant a'u diogelwch eu hunain a llesiant a diogelwch pobl eraill. Mae asesiadau'n rhoi dealltwriaeth glir o'r hyn fydd yn digwydd nesaf ac yn arwain at gynllun sy'n berthnasol i'r anghenion a nodir. Caiff camau gweithredu a argymhellir, a gynlluniwyd i gyflawni'r canlyniadau sy'n bwysig i bobl, eu nodi ac maent yn cynnwys yr holl gamau a all gael eu cymryd drwy wasanaethau cymunedol neu ataliol yn ogystal â gwasanaethau arbenigol.

Crynodeb o'r canfyddiadau

- 2.1 Mae'r awdurdod lleol wedi addasu ei ffurflenni asesu yn sgil gweithredu'r Ddeddf er mwyn sicrhau dull gweithredu mwy integredig. Yn gyffredinol, roedd yr asesiadau o ansawdd da ac yn cael eu cynnal mewn modd amserol. Gwelsom dystiolaeth o blant yn cael eu gweld fel rhan o'u hasesiad a bod eu barn yn cael ei cheisio a'i chlywed. Yn yr enghreifftiau gorau, roedd asesiadau yn cael eu cydlunio gyda phlant a theuluoedd yn nodi eu dymuniadau a'u teimladau yn glir. Roedd dadansoddiadau'n canolbwyntio ar gryfderau a risgiau posibl, a adlewyrchwyd yn glir mewn cynlluniau mewn ffordd oedd yn helpu teuluoedd i ddeall.
- 2.2 Mae'r awdurdod lleol yn parhau i ymgorffori'r model Arwyddion Diogelwch ar draws gwasanaethau plant er mwyn sicrhau bod ei ddull o gynnal asesiadau a chynllunio gofal yn dod yn fwy cynhwysol a thryloyw gyda theuluoedd a phobl ifanc. Mae pob uwch reolwr, gan gynnwys Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Pennaeth Gwasanaeth, wedi cael hyfforddiant ar Arwyddion Diogelwch sy'n dangos ei ymrwymiad i'r model. Yn y ffeiliau a archwiliwyd gwelsom enghreifftiau o blant yn mynegi eu dymuniadau a'u teimladau drwy'r model "tri thy" wrth wneud gwaith uniongyrchol gyda'u gweithiwr cymdeithasol.
- 2.3 Bu modd cryfhau gwasanaethau ataliol drwy'r fenter Ymylon Gofal sy'n cynnig cymorth dwys ychwanegol i deuluoedd er mwyn atal teuluoedd rhag chwalu. Defnyddiwyd arian grant Llywodraeth Cymru i gyflogi dau weithiwr ychwanegol yn y Tîm Ymylon Gofal sy'n rhan o'r Tîm Integredig Cymorth i Deuluoedd er mwyn rhoi cymorth dwys i deuluoedd sy'n wynebu problemau tai, problemau camddefnyddio sylweddau a chyda sgiliau cyllidebu a rhianta er mwyn atal teuluoedd rhag chwalu neu helpu pobl ifanc i ddychwelyd i ofal eu teuluoedd o leoliad maeth.

2.4 Ar y cyfan, roedd y gwaith asesu o ansawdd da gyda thystiolaeth o blant yn cael eu gweld fel rhan o'u hasesiad a bod eu llais yn cael ei glywed. Yn yr enghreifftiau gorau roedd asesiadau manwl yn darparu sail gadarn ar gyfer dadansoddi'r materion a oedd yn effeithio ar blant a'u teuluoedd. Roedd asesiadau yn cael eu llunio ar y cyd â'r teuluoedd, gan gynnwys eu barn, nodi cryfderau a risgiau posibl oedd yn helpu i nodi cymhwysedd a chymorth cynnar. Dangosodd un teulu y siaradwyd ag ef ddealltwriaeth glir o rolau pob asiantaeth a disgrifiodd gydberthynas waith dda â'i weithiwr cymdeithasol a'i weithiwr cymorth. Roedd hyn yn galluogi'r rhieni i nodi sut y gallent wneud pethau drostynt eu hunain a meithrin sgiliau i gynnal gwell canlyniadau.

2.5 Mae'r tîm Plant ag Anableddau yn rhan o'r Gwasanaeth Cynhwysiant yn y gyfarwyddiaeth Addysg. Dim ond nifer fach o asesiadau a adolygwyd gennym ond roedd y rhai a welwyd o ansawdd da. Mae gwasanaethau Cymorth Cynnar yn hygyrch i deuluoedd nad ydynt yn bodloni'r meini prawf ar gyfer defnyddio gwasanaethau strategaeth drwy'r Tîm o Amgylch y Teulu a gwasanaethau seibiant.

3. Gofal a chymorth a chynllunio llwybrau

Yr hyn rydym yn disgwyl ei weld

Mae pobl yn cael gofal, cefnogaeth, help a diogelwch amlasiantaethol amserol ac effeithiol lle bo hynny'n briodol. Caiff pobl sy'n defnyddio gwasanaethau eu cefnogi gan gynlluniau gofal a chymorth sy'n hybu eu hannibyniaeth, eu dewis a'u llesiant, yn helpu i'w cadw'n ddiogel ac yn adlewyrchu'r canlyniadau sy'n bwysig iddynt. Caiff pobl eu helpu i ddatblygu eu galluoedd a goresgyn rhwystrau i gynhwysiant cymdeithasol.

Crynodeb o'r canfyddiadau

- 3.1 Ategir y gwaith o gynllunio gofal a chymorth gan y fframwaith Arwyddion Diogelwch. O'r ffeiliau achos a archwiliwyd gennym, roedd yn amlwg bod diffyg cysondeb wrth weithredu'r model gan bob gweithiwr cymdeithasol. Caiff hyn ei gydnabod gan yr awdurdod, ac mae hyfforddiant wedi'i gynllunio gyda'r staff er mwyn sicrhau bod y model yn rhan lawn o ymarfer. Fodd bynnag, roedd llawer o'r cynlluniau gofal a chymorth a'r cynlluniau llwybrau yn fanwl ac o ansawdd da, ac roedd llawer yn adlewyrchu gwaith uniongyrchol a oedd yn cael ei wneud gyda phlant, pobl ifanc a theuluoedd. Yn y ffeiliau a archwiliwyd gwelsom gynlluniau a oedd yn cefnogi'r trefniadau gorau posibl ar gyfer pobl ifanc ac i'r graddau mwyaf posibl roeddent yn gyson â hybu eu llesiant.
- 3.2 Gwelsom dystiolaeth o gynlluniau gofal a chymorth yn cael eu datblygu gydag asiantaethau partner er mwyn sicrhau'r canlyniadau gorau i blant a phobl ifanc. Un enghraifft oedd cynnwys yr ysgol a'r gwasanaeth ieuencid wrth gyfrannu at y cynllun a chyflawni agweddau arno ar y cyd â pherson ifanc ar y pwynt argyfwng.
- 3.3 Dros y 18 mis diwethaf mae'r Tîm Integredig Cymorth i Deuluoedd wedi datblygu dull o gefnogi teuluoedd sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ar y cam cynhadledd amddiffyn plant cychwynnol drwy fabwysiadu Ymyriadau Byr Cyn Cynhadledd. Mae hyn wedi arwain at gynnwys teuluoedd yn y gwaith o lunio eu cynlluniau diogelwch eu hunain. Mae'r awdurdod lleol yn bwriadu datblygu'r fath ymyrraeth ar draws y gwasanaeth.
- 3.4 Atgyfnerthwyd y gwaith o gynllunio'r broses bontio i bobl ifanc rhwng gwasanaethau plant a gwasanaethau oedolion er mwyn hyrwyddo parhad, lleihau'r risg o golli momentwm wrth gynllunio ac ymgysylltu â phobl ifanc neu oedi wrth ddarparu gwasanaeth. Mae penodi Rheolwr Gwasanaeth newydd o fewn gwasanaethau oedolion a fydd yn arwain y maes hwn ynghyd â'r protocol pontio sydd wedi'i adolygu yn golygu y gall y broses fod yn fwy hygyrch i bobl ifanc.

Y rhai sy'n gadael gofal

- 3.5 Mae angen gwneud mwy o waith o ran sicrhau canlyniadau da i'r rhai sy'n gadael gofal. Gyda lleihad cyson yn nifer y plant sy'n derbyn gofal ers 2011, mae angen canolbwyntio ar y twf a ddisgwyllir yn nifer y bobl sy'n

gadael gofal yn y ddwy flynedd nesaf. Mae penodi rheolwr gwasanaeth newydd a rheolwr tîm Rhianta Corfforaethol newydd yn cynnig cyfle i edrych ar y cymorth a roddir i'r rhai sy'n gadael gofal a'i ddatblygu yn unol ag argymhellion adroddiad "Breuddwydion Cudd" y Comisiynydd Plant.

- 3.6 Er mwyn darparu gofal i'r rhai sy'n gadael gofal hyd at 25 oed mae'r awdurdod lleol wedi cynyddu nifer y Cynghorwyr Personol. Soniodd rhai o'r rheini sy'n gadael gofal am ymroddiad a chymorth eu Cynghorwyr Personol, wrth sicrhau eu bod yn cael yr un cyfleoedd â'u cyfoedion o ran cael gafael ar dai addas, addysg, gwaith a pharatoi i fod yn annibynnol. Clywsom am ddatblygiad pellach cyfleoedd cyflogaeth a chynllun prentisiaeth i'r rhai sy'n gadael gofal yn yr awdurdod lleol.
- 3.7 Gwelsom waith ar y cyd â phartneriaid fel tai, addysg a gwasanaethau ieuencid i gefnogi'r rhai sy'n gadael gofal. Mae'r awdurdod lleol wedi cael gafael ar fflat hyfforddi er mwyn paratoi pobl ifanc gyda'r sgiliau sydd eu hangen i fyw'n annibynnol a chael gafael ar lety â chymorth hefyd. Mae cynlluniau ar waith i ehangu'r ddarpariaeth hon.
- 3.8 Ar lefel gorfforaethol roedd sylfeini datblygu gwasanaethau i'r rhai sy'n gadael gofal yn dechrau cael eu hymgorffori. Bydd hyn yn gwneud cyfraniad sylweddol at ganlyniadau cadarnhaol i'r rhai sy'n gadael gofal, gyda ffocws ar waith ataliol er mwyn cefnogi canlyniadau da iddynt. Soniodd cynrychiolwyr tai am ddatblygu dull gweithredu ataliol, am eu bod yn awyddus i osgoi gweld pobl ifanc mewn argyfwng, ac roeddent yn cydnabod pwysigrwydd meithrin cydberthnasau gwaith da â gwasanaethau cymdeithasol er mwyn cyflawni'r nod hwn. Mae'r broses o rannu gwybodaeth rhwng cyfarwyddiaethau yng Nghyngor Sir Penfro wedi gwella, gyda thystiolaeth o ffeiliau yn dangos cyfraniadau o'r adran dai o fewn cynlluniau llwybrau a'r Tîm Rheoli Tenantiaethau yn rhan o gynadleddau amddiffyn plant.
- 3.9 Mae'r awdurdod lleol wedi ymrwymo i ddarparu'r deilliannau addysgol gorau i blant sy'n derbyn gofal a'r rhai sy'n gadael gofal. Drwy fodel Ysgol Rithwir ar gyfer plant sy'n derbyn gofal gall yr awdurdod dracio eu cynnydd a nodi anghenion cymorth. Mae'r ysgol rithwir yn cyflogi tri hyfforddwr dysgu i gefnogi dysgu plant sy'n derbyn gofal gyda phecynnau addysgol pwrpasol yn dibynnu ar anghenion a dymuniadau'r plentyn. Mae'r cymorth hwn yn amrywio o gymorth un i un yn yr ystafell ddosbarth i sesiynau adolygu yng nghartref gofalwyr maeth. I'r rhai sydd ar ddiwedd eu haddysg ysgol, mae cyfleoedd hyfforddiant pellach a phrofiad gwaith ar gael er mwyn gwella canlyniadau pobl ifanc a lleihau nifer y plant sy'n derbyn gofal nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant.
- 3.10 Gwelsom fod y Gwasanaeth Ieuencid yn ymwneud â phobl ifanc gryn dipyn, gyda lefelau uchel o gymorth yn cael eu darparu gan weithwyr ieuencid ac asiantaethau camddefnyddio sylweddol yn gweithio gyda'r rhai sy'n gadael gofal er mwyn sicrhau bod canlyniadau cadarnhaol yn cael eu cyflawni. Gwelsom dystiolaeth dda o bobl ifanc yn cyfrannu at gynlluniau sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau. Soniodd y bobl ifanc am eu

gweithwyr yn eu cynorthwyo i gael gafael ar amrywiaeth o wasanaethau cynghori priodol, er enghraifft cyngor iechyd rhywiol a gwasanaethau cymorth tai.

- 3.11 Mae'r awdurdod wedi croesawu'r cynllun "Pan Fydda I'n Barod" sy'n anelu at gefnogi pobl ifanc mewn lleoliadau maeth ar ôl 18 oed. Clywsom am achosion lle gweinyddwyd hyn yn hyblyg ac er budd gorau'r bobl ifanc.

Cynllunio Hirdymor

- 3.12 Yn yr awdurdod lleol, mae ymrwymiad i sicrhau parhad i'w blant sy'n derbyn gofal. Roedd prosesau clir ar waith ar gyfer gwneud penderfyniadau o ran sbarduno'r Amlinelliad o Gyfraith Gyhoeddus a phroses llys. Roedd cydberthnasau gwaith cadarnhaol rhwng gwasanaethau cyfreithiol a gwasanaethau plant yn amlwg, gyda'r ddau barti yn dangos parch gwirioneddol tuag at rolau proffesiynol y naill a'r llall a her adeiladol i hwyluso penderfyniadau effeithiol. Roedd prosesau uwchgyfeirio anffurfiol ar waith er mwyn nodi problemau ymarfer neu ddiffyg cydymffurfiaeth ag amserlenni'r llys.
- 3.13 Mae gwaith wedi mynd rhagddo i ddatblygu rôl y Swyddog Adolygu Annibynnol. Mae'r awdurdod lleol wedi sicrhau bod rôl y Swyddog hwn yn cael ei chydabod a'i deall gan reolwyr, staff a phartneriaid. Gwelsom fod systemau sicrhau ansawdd clir ar waith er mwyn osgoi llithro mewn achosion a fyddai'n cael effaith sylweddol ar fywydau pobl ifanc. Caiff Swyddogion Adolygu Annibynnol eu hystyried yn gadarnhaol fel cyfeillion beirniadol sy'n gweithio gyda gweithwyr cymdeithasol er mwyn sicrhau canlyniadau cadarnhaol i'r bobl ifanc sy'n derbyn gofal.
- 3.14 Roedd y gwasanaeth Swyddogion Adolygu Annibynnol yn cael ei arwain yn glir er mwyn hwyluso gwelliannau. Yn y ffeiliau a archwiliwyd gwelsom her glir mewn adolygiadau, cynnal trafodaethau cyn adolygu ddeg diwrnod cyn yr adolygiad gyda gweithwyr cymdeithasol a chyflwyno'r protocol uwchgyfeirio pan fo angen.

Dewis lleoliadau, sefydlogrwydd a llesiant

- 3.15 Mae angen mwy o ddatblygu a ffocws er mwyn sicrhau y cyrhaeddir safonau maethu, gan gynnig lleoliadau mwy sefydlog a chymorth o ansawdd i ofalwyr maeth. Roedd yn siomedig na weithredwyd yr argymhellion a nodwyd yn yr arolygiad maethu a gynhaliwyd yn 2016.
- 3.16 Mae'r awdurdod lleol yn cydnabod yn llawn ei ddiffygion yn y maes hwn o ddarparu gwasanaeth, a sut mae prinder dewis o ran lleoliadau, sefydlogrwydd a'i anallu i weithredu proses baru yn effeithio ar lesiant plant a phobl ifanc. Deallwn fod hyn yn flaenoriaeth i'r awdurdod lleol gyda'r Rheolwr Gwasanaeth newydd yn arwain y gwaith o ddatblygu'r gwasanaeth maethu.

- 3.17 Disgrifiodd rhai plant sy'n derbyn gofal a'r rhai sy'n gadael gofal enghreifftiau o gyflawni canlyniadau da lle cafwyd lleoliadau sefydlog. Roedd rhai pobl ifanc yn ymwybodol o "Pan Fydda I'n Barod" a chlywodd yr arolygwyr am gynllun person ifanc i aros gyda'i ofalwyr maeth presennol a sut roedd wedi cyfrannu at adolygiadau a chynlluniau er mwyn adlewyrchu'r dewis hwn.
- 3.18 Clywsom gan bobl ifanc, yr oedd rhai ohonynt wedi profi lleoliadau yn chwalu. Roedd un person ifanc wedi profi sawl lleoliad yn chwalu mewn cyfnod cymharol fyr. Yn dilyn achos o leoliad yn chwalu, dylid cynnal cyfarfodydd er mwyn deall pam. Pan nad yw hyn yn digwydd, nid yw'n galluogi'r awdurdod lleol i nodi na rhoi unrhyw wersi a ddysgwyd ar waith, a all ddatblygu ymarfer er mwyn helpu pobl ifanc i fyw mewn lleoliad diogel a sefydlog sy'n diwallu eu hanghenion. Mae hwn yn faes i'w wella.
- 3.19 Mae'r awdurdod lleol wedi nodi problemau gyda'r broses asesu ar gyfer lleoliadau gyda rhieni a lleoliadau personau cysylltiedig. Mae'r problemau hyn yn ymwneud â'r amser a ganiateir i gynnal asesiad a'i gymeradwyo. Gwneir gwaith ar ffyrdd newydd o weithio rhwng y tîm CIN a'r Tîm Lleoliadau Teuluoedd. Bydd y gwaith hwn yn edrych ar fwy o ffyrdd o gydweithredu a chynllun peilot yr adnodd asesu ymarferoldeb a gefnogwyd gan y Grŵp Hawliau Teuluoedd. Y nod yw llunio a chymeradwyo asesiadau o fewn yr amserlen.

Cyfranogaeth

- 3.20 Mae'r awdurdod lleol wedi llofnodi contract Eiriolaeth Ranbarthol Canolbarth a Gorllewin Cymru gyda Tros Gynnal Plant sy'n darparu gwasanaeth eirioli a gwasanaeth ymwelwyr annibynnol i blant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal yn sir Benfro. gwnaethom siarad â phlant a phobl ifanc a wnaeth gadarnhau eu bod yn ymwybodol o'r gwasanaeth ac o'r farn ei fod yn ddefnyddiol ac yn gynhyrchiol. Mewn ffeiliau achos gwelsom dystiolaeth o eiriolwyr yn cefnogi plant a phobl ifanc i gyfrannu at hyrwyddo canlyniadau llesiant, a nodau diogelu ac atal. Yn nogfennaeth adolygu sir Benfro mae cwestiwn ynghylch y "cynnig rhagweithiol" yn galluogi'r Swyddog Adolygu Annibynnol i fonitro'r defnydd o'r gwasanaeth. Rhoddir y wybodaeth hon i reolwyr tîm a all archwilio i ba raddau mae gweithwyr cymdeithasol yn bodloni'r disgwyliad bod pob plentyn a pherson ifanc yn cael cynnig gwasanaeth eirioli.
- 3.21 Mae 'Diogelwyr' Iau sir Benfro yn rhoi llais i bobl ifanc ar faterion diogelu lleol a rhanbarthol. Mae'r grŵp wedi bod ynghlwm wrth sawl prosiect, gan gynnwys cynnal cynadleddau diogelu i bobl ifanc. Mae'r cynadleddau yn helpu'r bobl ifanc sy'n bresennol i rannu'r hyn a ddysgir â'u hysgolion drwy gynllunio gweithgaredd diogelu. Mae'r awdurdod lleol yn bwriadu cynnal y Diogelwyr Iau wrth ddatblygu'r wefan diogelu.

4. Diogelu

Yr hyn rydym yn disgwyl ei weld

Mae strategaethau diogelu lleol effeithiol yn cyfuno elfennau ataliol ac amddiffynnol. Lle bo pobl yn cael eu cam-drin, eu hesgeuluso neu'u niweidio, neu'n wynebu risg o hynny, maent yn derbyn ymatebion amlasiantaeth brys a gaiff eu cydlynu'n dda. Mae camau gweithredu sy'n deillio o gynlluniau diogelwch neu reoli risg yn llwyddo i leihau risgiau gwirioneddol neu bosibl. Ni chaiff pobl eu gadael mewn amgylcheddau anniogel na pheryglus. Caiff polisiâu a gweithdrefnau mewn perthynas â diogelu ac amddiffyn eu deall a'u gwreiddio'n dda ac maent yn helpu i sicrhau ymateb amserol a chymesur i bryderon sy'n dod i'r amlwg. Mae'r awdurdod lleol a'i bartneriaid yn noddi diwylliant dysgu lle gellir ystyried newid perfformiad proffesiynol ac ymddygiad asiantaethau a'u gwella mewn ffordd agored ac adeiladol.

Crynodeb o'r canfyddiadau

- 4.1 Roedd tystiolaeth ar lefel strategol o ymrwymiad tuag at fwy o integreiddio a chydweithredu rhwng gwasanaethau plant a gwasanaethau oedolion o ran diogelu. Mae gan y Grŵp Gweithredol Lleol ddulliau cadarn o reoli adolygiadau ymarfer plant ac oedolion, ac mae wedi datblygu modiwl hyfforddiant diogelu i blant ac oedolion ar y cyd.
- 4.2 Nodwyd bod plant a phobl ifanc yn cael eu diogelu drwy gymhwysu trothwyon diogelu ac amddiffyn plant yn effeithiol. Roedd ymholiadau amddiffyn plant yn amserol ac yn drylwyr, wedi'u llywio gan benderfyniadau a wnaed mewn cyfarfodydd strategaeth a gynhaliwyd yn unol â chanllawiau ac arfer da.
- 4.3 Mae gwaith partneriaeth yn yr awdurdod lleol a chyda'i asiantaethau allanol o ran gwasanaethau diogelu ac atal wedi'i ymgorffori'n dda. Clywsom gan staff a phartneriaid oedd yn glir ynghylch y fframwaith ar gyfer ymyrryd o ran diogelu ac amddiffyn plant sydd wedi arwain at ddealltwriaeth a rennir o ymarfer diogelu.
- 4.4 Roedd tystiolaeth o ymarfer cadarnhaol wrth ymateb i bobl ifanc oedd wedi mynd ar goll a'r rhai oedd yn wynebu risg o gamfanteisio'n rhywiol arnynt. Yn y ffeiliau a archwiliwyd gwelsom dystiolaeth bod polisi Pobl ar Goll yr awdurdod yn cael ei ddilyn. Gwelsom rai enghreifftiau o gynlluniau lle defnyddiwyd yr adnodd ar gyfer Asesu'r Risg o Gamfanteisio'n Rhywiol (SERAF) gyda pherson ifanc er mwyn ei alluogi ef a'r asiantaethau oedd yn gweithio gyda'r person ifanc i ddeall a rheoli ymddygiad risg uchel.
- 4.5 Gwelsom grwpiau craidd amlasiantaethol effeithiol yn cael eu cynnal mewn modd amserol, ynghyd â'r defnydd o gyfarfodydd panel PLO er mwyn helpu i gynllunio gofal a phennu'r lefel o risg. Gwelsom dystiolaeth bod trothwyon priodol ar waith i gyflwyno trefniadau Amlinelliad o Gyfraith Gyhoeddus.

- 4.6 Arolygir a chreffir ar gynlluniau diogelwch a'r camau gweithredu cysylltiedig bob tri mis drwy gyfarfodydd Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant Amlasiantaethol. Dengys cofnodion y cyfarfodydd hyn fod yr achosion a nodwyd yn rhai risg uchel gan yr heddlu yn unol â'r rhai a nodwyd gan wasanaethau cymdeithasol sy'n cadarnhau bod gwybodaeth yn cael ei rhannu, bod cynlluniau yn cael eu hadolygu a bod unrhyw gamau gweithredu cysylltiedig yn cael eu cymryd o fewn yr amserlenni cytûn.
- 4.7 Mae'r gwasanaeth Y Tu Allan i Oriau wedi cael ei adolygu'n llawn ac mae bellach yn gweithredu fel tîm Dyletswydd Argyfwng, a reolir gan uwch reolwr sydd â phrofiad diogelu a gweithwyr cymdeithasol o fewn y tîm sydd â chefnidir mewn ymarfer oedolion, plant ac ieuchyd meddwl. Mae'r awdurdod lleol yn cydnabod bod mwy o waith i'w wneud er mwyn sicrhau bod cylch gwaith ac ymarfer y gwasanaeth hwn yn cael eu deall gan bob aelod o staff a phartner.

5. Arwain, Rheoli a Llywodraethu

Yr hyn rydym yn disgwyl ei weld

Mae trefniadau arwain, rheoli a llywodraethu'n cydymffurfio â chanllawiau statudol ac, ar y cyd, yn sefydlu strategaeth effeithiol i ddarparu gwasanaethau a chanlyniadau o ansawdd da i bobl. Mae diwallu anghenion pobl am wasanaethau o ansawdd yn ffocws clir i gynghorwyr, rheolwyr a staff. Caiff gwasanaethau eu harwain yn dda, ceir cyfeiriad clir a chaiff newid ei arwain mewn ffordd gadarn. Mae rolau a chyfrifoldebau ym mhob rhan o'r sefydliad yn glir. Mae'r awdurdod yn gweithio gyda phartneriaid i roi help, gofal a chefnogaeth i bobl a chyflawni ei gyfrifoldebau rhianta corfforaethol. Caiff pobl leol eu cynnwys yn effeithiol. Mae gan arweinwyr, rheolwyr ac aelodau etholedig wybodaeth a dealltwriaeth ddigonol o ymarfer a pherfformiad i'w galluogi i gyflawni eu cyfrifoldebau'n effeithiol.

Crynodeb o'r canfyddiadau

- 5.1 Bu newid mawr mewn personél ar lefel uwch yng Nghyngor Sir Penfro dros y pedair blynedd diwethaf. O fewn y gwasanaethau cymdeithasol mae penodiad Cyfarwyddwr newydd a phenodiad diweddar Pennaeth Gwasanaethau Plant wedi hyrwyddo newid ym maes arweinyddiaeth o fewn y gyfarwyddiaeth. Soniodd pob aelod o'r staff a phartner am newid clir ym maes arwain a llywodraethu yn deillio o'r Prif Weithredwr, ac uwch dîm rheoli newydd. Gwelsom dystiolaeth o uwch dîm rheoli agored, gweladwy a hawdd mynd ato oedd yn croesawu her ac yn gallu nodi cyfleoedd i ddatblygu ymarfer. Er bod y diwylliant wedi gwella, mae angen ffocws a gwaith pellach er mwyn datblygu meysydd a nodwyd gan yr Awdurdod Lleol yn feysydd â blaenoriaeth i'w datblygu.
- 5.2 Mae'r awdurdod lleol wedi nodi ei flaenoriaethau ar gyfer gwasanaethau plant ac mae'n dechrau ar daith i ddarparu gwasanaethau a chyflawni ymarfer sy'n seiliedig ar ganlyniadau. Mae Rhaglen Weinyddu 2019-2022 yn amlinellu gweledigaeth sy'n canolbwyntio ar wasanaethau ataliol, diogelu, recriwtio gofalwyr maeth a rôl rhiant corfforaethol gref. Wedi'i datblygu yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, mae'r ddogfen wedi cael ei chefnogi'n llawn gan yr aelodau etholedig.
- 5.3 Nodwyd bod y prif aelod yn deall ei gyfrifoldebau a bod ganddo wybodaeth gynhwysfawr am bwysau a heriau'r gwasanaeth. Roedd cyfarfodydd rheolaidd â'r Pennaeth Gwasanaeth yn cynnig cyfleoedd i fonitro a goruchwylio sefyllfa'r adran o ran diogelu a phlant sy'n derbyn gofal.
- 5.4 Roedd trefniadau Rhianta Corfforaethol ar waith gydag aelodau, swyddogion a phartneriaid yn deall eu cyfrifoldebau rhiant corfforaethol ac yn ymrwymedig i wella ansawdd bywyd plant sy'n derbyn gofal, y rhai sy'n gadael gofal a phlant sydd angen eu hamddiffyn. Un enghraifft oedd eithrio'r rhai sy'n gadael gofal hyd at 25 oed rhag talu'r dreth gyngor. Parheir i ganolbwyntio'n sylweddol ar ymgorffori cyfrifoldebau diogelu a rhianta corfforaethol ar draws pob cyfarwyddiaeth yn y cyngor.

- 5.5 Gelsom dystiolaeth o fframwaith sicrhau ansawdd yr awdurdod lleol gyda chylch sicrhau ansawdd arfaethedig am y flwyddyn, oedd yn cynnwys archwiliadau cydymffurfio bob deufis gan reolwyr tîm gyda tharged o 150 o archwiliadau yn ystod y flwyddyn, 19 o archwiliadau Ansawdd Ymarfer am y flwyddyn a chynlluniau Parhad yn cael eu hadolygu bob mis. Er mwyn datblygu'r rhaglen hon, mae rôl y Cydlynnydd Sicrhau Ansawdd wedi'i datblygu er mwyn sicrhau cysondeb ansawdd a chynnwys sicrhau ansawdd mewn ymarfer.
- 5.6 Drwy'r Model Comisiynu Integredig, mae gwaith wedi'i wneud gyda phartneriaid gan ddefnyddio'r asesiad rhanbarthol o anghenion y boblogaeth i lywio cynlluniau'r dyfodol. Roedd hyn yn cynnwys gwaith gan is-grŵp o Bartneriaeth Gofal Gorllewin Cymru ar y cynnig i gomisiynu gwasanaethau preswyl o fewn y rhanbarth er mwyn cefnogi plant a phobl ifanc ag anghenion cymhleth.
- 5.7 Cafodd Gwasanaethau Plant fudd o weithlu profiadol, ymrwymedig, gyda nifer o staff wedi gweithio i'r awdurdod lleol ers sawl blwyddyn. Fodd bynnag, mae swyddi gwag diweddar a chyfnodau mamolaeth wedi rhoi pwysau ar rai timau. Nododd yr awdurdod lleol fod recriwtio a chadw staff yn broblem; nodwyd bod lleoliad daearyddol a chyflogau is o gymharu ag awdurdodau cyfagos yn rhai o'r anawsterau wrth geisio recriwtio a chadw staff. Mae hwn yn faes y mae'r awdurdod lleol wedi nodi bod angen mynd i'r afael ag ef gyda chynllun cadw staff yn cael ei ddatblygu, ar sail canlyniadau arolwg staff mis Gorffennaf 2018 a chyfweliadau ymadael. Gwelsom enghreifftiau cadarnhaol o gyfleoedd cymorth a datblygu da i staff, yn enwedig gweithwyr newydd gymhwyso.
- 5.8 Roedd trefniadau goruchwyllo ac arfarnu staff wedi bod yn anghyson. Mae polisi goruchwyllo cynhwysfawr newydd wedi cael ei ddatblygu gyda staff yn nodi eu bod wedi'u cynnwys wrth ei ddatblygu. Mae'n bwysig gweithredu'r polisi yn effeithiol.
- 5.9 Mae'r awdurdod lleol yn parhau i ddatblygu ei raglen hyfforddi ar gyfer staff, a gaiff ei llywio gan wybodaeth o ddadansoddiad blynyddol o anghenion hyfforddiant a gwblheir gan y staff. Er mwyn darparu hyfforddiant mwy cyson a chosteffeithiol, mae Cyngor Sir Penfro yn gweithio gyda phartneriaid ar draws y gorllewin er mwyn cynnig hyfforddiant ar y cyd i staff gofal cymdeithasol o bob rhan o'r sector, gan gynnwys y rhai sy'n gweithio gyda darparwyr allanol, partneriaid rhanbarthol a'r sector gwirfoddol.
- 5.10 Roedd polisi a gweithdrefn ar waith i ymdrin â chwynion, gyda gweithdrefn gwyno hawdd ei darllen wedi'i datblygu ac ar gael ar wefan y cyngor. Gwelsom dystiolaeth o staff yn cael hyfforddiant ar-lein ar ymdrin â chwynion ac roedd y Cyfarwyddwr a'r Pennaeth Gwasanaeth yn archwilio'r holl gwynion a chanmoliaeth a gafwyd. Ymdriniwyd â chwynion yn brydlon gydag ymatebion o ansawdd yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru ar ymdrin â chwynion. Ymdriniwyd â'r rhan fwyaf ar gam un gan reolwyr tîm ac roeddent yn ymwneud yn bennaf â phroblemau

cyfathrebu neu ymarfer. Roedd tystiolaeth o'r awdurdod lleol yn dysgu o gwynion drwy drafodaethau wrth oruchwylio staff unigol ac mewn cyfarfodydd tîm.

Methodoleg

Gwaith maes

Cynhaliwyd wyth diwrnod o weithgarwch gwaith maes.

Gwnaethom ddewis ffeiliau achos i'w holrhain a'u hadolygu o sampl o achosion. Adolygwyd cyfanswm o 50 o ffeiliau; o'r rhain, cynhaliwyd cyfweiliadau olrhain dilynol â gweithwyr cymdeithasol ac aelodau teulu yn achos 20 ohonynt a chynhaliwyd grŵp ffocws olrhain mewn perthynas â 4 ohonynt a oedd yn cynnwys partneriaid amlasiantaeth.

Gwnaethom gyfsweld â phlant, rhieni a pherthnasau.

Gwnaethom gyfsweld ag amrywiaeth o gyflogeion yr awdurdod lleol, aelodau, uwch swyddogion, y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Prif Weithredwr.

Gwnaethom gyfsweld ag amrywiaeth o sefydliadau partner yn cynrychioli'r sector statudol a'r trydydd sector.

Gwnaethom adolygu sampl o ffeiliau goruchwylio staff.

Gwnaethom adolygu dogfennau ategol a anfonwyd at AGC at ddiben yr arolygiad.

Gwnaethom edrych ar sampl o'r cwynion a wnaed am wasanaethau plant.

Y Tîm Arolygu:

Prif Arolygydd: Ann Rowling. Arolygwyr Cynorthwyol: Mike Holding, Sharon Eastlake, Tracey Shepherd a Sandra Thomas.

Cydnabyddiaethau

Hoffai AGC ddiolch i'r bobl ganlynol a wnaeth roi o'u hamser a chyfrannu at yr arolygiad hwn; plant a phobl ifanc, rhieni a gofalwyr, staff, rheolwyr ac aelodau a sefydliadau partner.